Clerc/Clerk: Anwen Jones
Cyfeiriad/Address: 10 Gorffwysfa, Dwyran, Ynys Mon, LL61 6YJ
Ffon/Tel: 07375781090
E-bost/E-mail: clerk@valley-community-council.wales
Gwefan: www.cyngor-cymuned-fali.cymru
Website: www.valley-community-council.wales

DRAFT

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Ynys Wen
7.00yh 04/11/2025
yn adeilad y Pafiliwn, Parc Mwd

Minutes of the Ynys Wen Committee
7.00pm 04/11/2025
at the Pavilion building, Parc Mwd

**Presennol:**
Cynghorwyr
W Rogerson MBE (Cadeirydd) M Swaine Williams
A Walker G Browne MBE
N Tuck

**Present:**
Councillors
W Rogerson MBE (Chair) M Swaine Williams
A Walker G Browne MBE
N Tuck

**Ymddiheuriadau:** Dim

**Apologies:** None

**Hefyd yn bresennol:**
Gareth Hughes, Cyfarwyddwr, R G Hire
Gareth Owen, Griffith Roberts a'i Fab
A Jones, Clerc

**Also present:**
Gareth Hughes, Director, R G Hire
Gareth Owen, Griffith Roberts a'i Fab
A Jones, Clerk

1. **Croeso**
Croesawyd bawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.

Cafwyd ganiatad gan pawb yn bresennol i recordio'r cyfarfod er mwyn cynorthwyo gyda pharatoi'r cofnodion.

**Welcome**
Everyone was welcomed to the meeting by the Chair.
Permission was granted by all present to record the meeting in order to assist with the preparation of the minutes.

2. **Cofnodion y cyfarfod diwethaf**
Derbyniwyd y cofnodion a'i argymhellion ar gyfer 30/10/2024 yng nghyfarfod arbennig o'r cyngor llawn ar 20/11/2024 (cofnod 155/2425).
Nid oedd unrhyw faterion yn codi nad oeddent wedi'u cynnwys yn yr agenda.

**Minutes of last meeting**
The minutes and recommendations for 30/10/2024 were accepted at the full council meeting on 20/11/2024 (minute 155/2425).
There were no matters arising that were not included in the agenda.

3. **Diweddariad – Gwaith Draenio Ynys Wen**
Derbyniwyd drosolwg o'r gwaith draenion yn Ynys Wen gan Gareth, Cyfarwyddwr y cwmni R G Hire, ynghyd a lluniau o'r gwaith, gan gynnwys dangos y dyfnderau a gyrhaeddwyd ar gyfer y ffosydd i osod y pibellau draenio newydd.

Rhannodd Gareth ei bryder yn dilyn tystio gwaith paratoi bedd diweddar, gan nodi ei fod yn ymddangos and yw'r dwr yn y ddaear yn yr ardal

**Update – Ynys Wen Drainage Works**
A summary of the Ynys Wen drainage works was received by Gareth, Director of R G Hire, along with images showing the work, including the depths reached for the trenches to lay the new drainage pipes.

Gareth did share his concern following being witness to a recent grave preparation, that it appears that water currently in the ground in that



Arwyddwyd / Signed: Dyddiad / Date:
Cadeirydd / Chairman

benodol honno yn cyrraedd y draen, o bosib oherwydd y clai yn y ddaear.

Awgrymodd hefyd, os bydd y problemau'n parhau yn y dyfodol, byddai gosod draen fertigol ychwangol yn opsiwn i'w gysidro.

Nodwyd hefyd y dylai'r Cyngor atgoffa Cyfoeth Naturiol Cymru eu bod wedi nodi y byddent yn dychwelyd i gyflawni gwaith cynnal a chadw i'r afon Cleifiog.

Mae gwaith adfer i'w gynnal gan R G Hire yn Ynys Wen, pan fydd y tywydd yn caniatau, i adfer y pridd a thynnu'r ffensys, y gobaith yw bydd hyn wedi ei gwblhau erbyn diwedd y flwyddyn.  Yn ogystal, bydd gwaith ail-hadu ar gyfer y Gwanwyn.

Diolchodd y pwyllgor i Gareth a R G Hire am y gwaith.

*Gadawdodd Gareth Hughes y cyfarfod am 19:15.*

particular area is not finding its way to the drain possibly due to the clay in the ground.

He also suggested in the future if problems persist an additional vertical drain could also be an option to consider.

It was also noted that Natural Resources Wales to be reminded by the Council that they have noted to come back to carry our river maintenance of Afon Cleifiog.

Remedial work is required by R G Hire at Ynys Wen, weather permitting, to reinstate the soil and remove the fencing, hopefully before the end of the year. And additionally re-seeding for Spring.

The committee thanked Gareth and R G Hire for the work.

*Gareth Hughes left the meeting at 19:15*

4. **Asesiad Risg Mynwent Ynys Wen**

Cynhaliwyd yr asesiad risg blynyddol ar 30/10/2025 gan y Cyng. W Rogerson MBE, y Cyng. G Browne MBE a'r Cyng. N Tuck. Nodwyd y camau canlynol:

1. Cerrig bedd rhydd wedi'i hadnabod x 11.  I'w adrodd i'r ymgymerwyr angladd am sylw.
2. Hen garreg fedd o fedd anhysbys i'w ailosod yn yml y fynwent.
3. Mainc er cof Hywel Jones wedi dirywio. Pris yn ofynnol ar gyfer mainc newydd, wedi'u wneud o ddeunydd ailgylchu.
4. Arwydd yn y prif fynedfa wedi dirywio. Angen pris ar gyfer arwydd newydd.

**Argymhelliad 1**: Cymeradwyo Asesiad Risg Ynys Wen a gynhaliwyd ar 30/10/2025.

**Ynys Wen Cemetery Risk Assessment**

The annual risk assessment was carried out on 30/10/2025 by Cllr. W Rogerson MBE, Cllr. G Browne MBE and Cllr. N Tuck. The following actions were identified:

1. Loose headstones x 11 were identified.  To be reported to undertakers for attention.
2. Old headstone from unknown grave to be reseated at the edge of the cemetery
3. Seat in memory of Hywel Jones in poor condition.  Price required to replace with new from recycled material.
4. Sign in main entrance in faded condition. Price required for replacement.

**Recommendation 1**: To approve the Ynys Wen Risk Assessment carried out 30/10/2025.

5. **Cyllid Ynys Wen ar 30/09/2025**

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Incwm | £989.00 |
| 2. | Gwariant | £2,608.86 |

3. Cysoni banc ar 30/09/2025

**Ynys Wen Finance on 30/09/2025**

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Income | £989.00 |
| 2. | Expenditure | £2,608.86 |

3. Bank reconciliation at 30/09/2025

| | | |
|---|---|---|
| Ynys Wen Charitable Account | 61209305 | £7,631.59 |
| Ynys Wen Reserves | 51216996 | £20,709.32 |

DRAFT



Arwyddwyd / Signed:　　Dyddiad / Date:
Cadeirydd / Chairman

**Argymhelliad 2**: Cymeradwyo cyfrifon Ynys Wen ar gyfer Chwarter 2 2025/26.

Nodwyd bod y benthyciad PWLB o £10,000 wedi'i dderbyn i gyfrannu at ariannu'r gwaith draenio yn Ynys Wen.

Codwyd pryderon gan y pwyllgor bod gwariant ym Mynwent Ynys Wen yn llawer uwch na'r incwm ar gyfer Chwarter 2. Nodwyd hefyd y bydd ad-dalu'r benthyciad yn rhoi pwysau ychwanegol ar y sefyllfa ariannol, ac y dylai Mynwent Ynys Wen fod yn hunan-ariannol o hyn ymlaen

**Recommendation 2**: To approve the Ynys Wen accounts at Quarter 2 2025/26.

It was noted that the PWLB loan of £10,000 had now been received to part fund the drainage work at the cemetery.

Concerns were raised by the committee that the expenditure at Ynys Wen far exceeds the income at quarter 2. It was also noted that the loan repayment will be an additional pressure on the finance and that Ynys Wen needs to be self-financing moving forward.

6. **Adolygu Costau Claddu am 2026/27**

Cynhaliwyd drafodaeth i adolygu'r ffioedd claddedigaeth yng ngoleuni sefyllfa ariannol Ynys Wen. Nodwyd gyda phryder, os bydd y nifer presennol o gladdedigaethau yn parhau, ei bod yn annhebygol y bydd yr incwm yn cynyddu i gwmpasu costau cynnal a chadw a'r benthyciad newydd. Cyflwynodd y Cyng. N Tuck gymhariaeth o ffioedd claddedigaeth gan gynghorau cymuned/tref amrywiol a'r Eglwys yng Nghymru er mwyn ystyried. Amlinellwyd y cynnydd arfaethedig, a thrafodwyd eu heffaith bosibl. Nodwyd y byddai'r ffioedd diwygiedig yn cynhyrchu incwm ychwanegol, gan helpu i leddfu'r pwysau cyllidebol presennol. Ystyriwyd hefyd yr effaith ar ddefnyddwyr o'r fynwent.

Cynnigwyd i gynyddu'r ffioedd claddedigaeth i'r **Ffioedd Arfaethedig Y Fali** a nodwyd yn y tabl isod.
Cyn/Eil: NT/ WR Pawb yn gytun.

**Review of Burial Fees for 2026/27**

A discussion was held to review the burial fees in light of Ynys Wen's financial position. It was noted with concern, if the current burial numbers continues, income is unlikely to increase to cover costs of maintenance and the new loan.
Cllr. N Tuck presented a comparison of burial fees of various community/town councils and the Church in Wales for consideration. The proposed increases were outlined, and their potential impact was discussed. It was noted that the revised fees would generate additional income, helping to offset current budget pressures. The effect on service users was also considered.

It was proposed to increase the Ynys Wen Burial Fees to **Valley Proposed Fees** as noted in table below.
Prop/Sec: NT/WR. All agreed.

| | Ffioedd Cyfredol Y Fali<br>*Valley Current Fees* | **Ffioedd Arfaethedig Y Fali**<br>***Valley Proposed Fees*** | Gwahaniaeth<br>*Difference* |
|---|---|---|---|
| Bedd i un yn enedigol/yn byw o fewn y gymuned<br>*New burial in parish* | 273 | **350** | +77.00 |
| Bedd i un yn byw oddi allan i'r gymuned<br>*New burial out of parish* | 504 | **700** | +196.00 |
| Claddu llwch un yn enedigol/byw o fewn y gymuned<br>*Burial of ashes in parish* | 179 | **200** | +21.00 |
| Claddu llwch un oedd yn byw tu allan i'r gymuned<br>*Burial of ashes out of parish* | 210 | **400** | +190.00 |

DRAFT



Arwyddwyd / Signed: Dyddiad / Date:
Cadeirydd / Chairman

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ail agor bedd i un yn enedigol/byw o fewn y gymuned<br>*Reopening of grave in parish* | 105 | **300** | +195.00 |
| Ail agor bedd un oedd yn byw tu allan i'r gymuned<br>*Reopening of grave out of parish* | 147 | **600** | +453.00 |
| Ail agor bedd claddu llwch i un yn enedigol/byw yn y gymuned<br>*Reopen a plot for ashes in parish* | - | **200** | +200.00 |
| Ail agor bedd claddu llwch un oedd yn byw tu allan i'r gymuned<br>*Reopen a plot for ashes out of parish* | - | **400** | +400.00 |
| Carreg fedd i un yn enedigol/byw o fewn y gymuned<br>*Memorial stone in parish* | 170 | **170** | - |
| Carreg fedd i un oedd yn byw tu allan i'r gymuned<br>*Memorial stone out of parish* | 252 | **250** | -2.00 |
| Carreg fedd ar gyfer claddu llwch un oedd yn enedigol/yn byw oddi fewn y gymuned<br>*Memorial stone ashes in parish* | 179 | **170** | -9.00 |
| Carreg fedd ar gyfer claddu llwch un oedd yn byw tu allan i'r gymuned<br>*Memorial stone ashes out of parish* | 252 | **250** | -2.00 |

**Argymhelliad 3**: Cymeradwyo cynnyddu ffioedd mynwent Ynys Wen a gynigwyd fel a nodir yn y golofn <u>Ffioedd Arfaethedig Y Fali</u> yn y tabl uchod.

**Recommendation 3**: To approve the proposed increases to Ynys Wen cemetery fees as noted in column <u>Valley Proposed Fees</u> in the table above.

Awgrymwyd hefyd y dylid cynnwys diffiniad o'r rheol 'person lleol' o fewn strwythur ffioedd claddedigaeth, er mwyn sicrhau eglurder a chysondeb.

It was also suggested that a definition of 'local person' rule be included within the burial fee structure, to ensure clarity and consistency.

7. **Adolygu Canllawiau'r Fynwent**

Adolygwyd y canllawiau a chynigiwyd gwelliannau er eglurder, gan gynnwys manylion polisi meinciau Ynys Wen. Y clerc i ddiwygio a dosbarthu i'r pwyllgor cyn cael ei fabwysiadu'n ffurfiol yng nghyfarfod nesaf y cyngor.

**Review of Cemetery Guidelines**

The guidelines were reviewed and improvements offered for clarity, to include bench policy details for Ynys Wen. The clerk to amend and circulate to the committee before being formally adopted at the next council meeting.

**Argymhelliad 4**: Cymeradwyo canllawiau'r fynwent fel yr adolygwyd ar 04/11/2025.

**Recommendation 4**: To approve the cemetery guidelines as reviewed on 04/11/2025.

8. **Adroddiad gan yr Ymgymerwyr**

Nid oedd dim i'w adrodd gan Mr Gareth Owen.

**Report from the Undertakers**

There was nothing to report from Mr Gareth Owen.

DRAFT



Arwyddwyd / Signed: Dyddiad / Date:
Cadeirydd / Chairman

Diolchodd y pwyllgor i Gareth a'i dim am eu gwaith a'u proffesiynoldeb ym Mynwent Ynys Wen.

The committee thanked Gareth and his team for their work and professionalism at Ynys Wen Cemetery.

*Gadawdodd Gareth Owen y cyfarfod am 20:14*

*Gareth Owen left the meeting at 20:14*

9. **Anghenion Cyllidebol 2026/27**

Awgrymwyd y canlynol i'w hystyried ar gyfer gwariant yn 2026/27:

- Mainc newydd (wedi'u gwneud o ddeunydd ailgylchu)
- Arwydd newydd wrth y brif fynedfa.

**Budget Requirements 2026/27**

The following were suggested for consideration for expenditure in 2026/27:

- Replacement bench (in recycled material)
- New sign to main entrance.

10. **Unrhyw fater arall a hysbyswyd cyn y cyfarfod**

Dim

**Any other notified business prior to the meeting**

None

**Argymhellion i'r Cyngor**

**Recommendations to the Council**

**Argymhelliad 1**: Cymeradwyo Asesiad Risg Ynys Wen a gynhaliwyd ar 30/10/2025.

**Recommendation 1**: To approve the Ynys Wen Risk Assessment carried out 30/10/2025.

**Argymhelliad 2**: Cymeradwyo cyfrifon Ynys Wen ar gyfer Chwarter 2 2025/26.

**Recommendation 2**: To approve the Ynys Wen accounts at Quarter 2 2025/26.

**Argymhelliad 3**: Cymeradwyo cynnyddu ffioedd mynwent Ynys Wen a gynigwyd yn y golofn Ffioedd Arfaethedig Y Fali .

**Recommendation 3**: To approve the proposed increases to Ynys Wen cemetery fees as noted in column Valley Proposed Fees.

**Argymhelliad 4**: Cymeradwyo canllawiau'r fynwent fel yr adolygwyd ar 04/11/2025.

**Recommendation 4**: To approve the cemetery guidelines as reviewed on 04/11/2025.

*Daeth y cyfarfod i ben 20:21*

*The meeting came to an end 20:21*



Arwyddwyd / Signed: Dyddiad / Date:

Cadeirydd / Chairman

DRAFT